Ymweliadau gwaith maes – canllawiau ar gyfer yr awdurdod lleol

Wythnos 2: Timau asesu/rheoli gofal

Wrth ymweld â thimau, bydd yr adolygwyr yn dymuno gweld:

- rheolwyr ac aelodau o dimau rheng flaen yn eu gweithle;
- gweithgaredd dyletswydd a derbynfa (arsylwi);
- ymarferwyr a rheolwyr sy'n gyfrifol am yr achosion a ddewiswyd;
- rheolwyr swyddfa, gweinyddwyr a derbynyddion.

Wrth ymweld â thimau, bydd creu rhaglen ar gyfer yr ymweliad yn aml o gymorth. Gallai hyn gynnwys:

- cyfarfod byr gyda'r rheolwr a thaith o'r safle *15 munud*
- arsylwi ac archwilio prosesau *1 awr*
- cyfarfod â'r staff (heb fod y rheolwr yn bresennol) *45 munud*
- cyfweliad gyda'r gweithiwr yr achos ar gyfer unrhyw achos yn sampl yr astudiaeth *45 munud*
- cyfarfod gyda'r rheolwr *1 awr.*

Byddai o gymorth pe byddai timau ac unigolion yn paratoi peth deunydd briffio ymlaen llaw. Gallai hyn gynnwys cylch gwaith y tîm, sefydliad y staff, gwybodaeth am lwyth gwaith, data perfformiad cyfredol a chynllun neu amcanion y tîm. Gellir defnyddio dadansoddiad SWOT i gynorthwyo'r adolygwyr i ddeall safbwynt y tîm ynglŷn â materion allweddol. Os yw'r cyfweliad yn berthnasol i'r sampl ffeil, dylai'r gweithwyr cymdeithasol a'r rheolwyr tîm ddeall y cânt eu cyfweld ynglŷn â:

- yr achos penodol;
- y trefniadau goruchwylio;
- eu hymwybyddiaeth gyffredinol ynglŷn ag agweddau eraill megis polisïau a gweithdrefnau.

Pan fo'n bosibl, bydd ffeiliau ar gael iddynt gyfeirio atynt.

Gwybodaeth

Mae cael gwybodaeth gywir ac eglur ynglŷn â'r adolygiad yn hanfodol, os am osgoi pryder neu ansicrwydd dianghenraid. Sylwer yn benodol ar y pwyntiau canlynol.

- Sicrhewch fod pawb yn deall natur a chanolbwynt yr adolygiad a pham y cânt eu gweld.
- Dylid darparu copi o'r taflenni cyd-adolygu perthnasol i bawb ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â'r codau ymarfer ar gyfer adolygwyr ac aseswyr lleyg;
- Sicrhewch fod pawb yn gwybod enw(au)'r adolygwr(wyr) a'r aseswr lleyg (pan fo'n briodol) sy'n cynnal yr ymweliad neu'n cynnal y cyfweliad.

- Mae amserlenni gwaith maes yn gyfyng fel arfer, felly mae bod ar amser yn bwysig i bawb dan sylw, gan gynnwys y tîm cyd-adolygu. Gall oedi effeithio ar nifer o bobl.

Meysydd i'w harchwilio

Mae'r ymweliadau gwaith maes yn fodd allweddol o gael tystiolaeth ynglŷn â'r meysydd sydd i'w harchwilio a fydd yn sail i ddyfarniadau. Mae'r Llawlyfr Cyd-Adolygu yn amlinellu'r meysydd hyn ac, wrth ofyn cwestiynau, bydd yr adolygwyr yn canolbwyntio arnynt. Byddwn yn edrych yn benodol ar ddau fater allweddol:

- Pa mor dda y caiff anghenion eu bodloni gan y gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd?
- Pa adnoddau sydd gan yr awdurdod lleol er mwyn darparu gwelliannau o ran ansawdd y gwasanaethau hynny?

Byddwn wedi paratoi rhai cwestiynau, yn rhannol er mwyn cadarnhau peth o'r wybodaeth yr ydym eisoes wedi ei derbyn. Yn ogystal â gofyn cwestiynau, rydym eisiau sicrhau y caiff aelodau staff y cyfle i siarad am y materion sy'n eu pryderu a chyfle i ddweud wrthym am eu profiadau. Mae gennym gymaint o ddiddordeb yn yr hyn sy'n gweithio'n dda ag sydd gennym yn yr hyn sydd angen ei wella.